Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol (2017 – 2033)

## Adborth o Seminarau Aelodau a Rhanddeiliaid Ebrill 2018 –Materion Drafft

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Sylwadau a Gafwyd ........ 3

Materion Allweddol ........ 3

Y camau nesaf ........ 4

ATODIAD 1 ........ 5

ATODIAD 2 ........ 12

**Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl2: 2017 – 2033) - Materion Diwygiedig**

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd seminarau gyda Chynghorwyr Sir (23 Ebrill 2018) a Rhanddeiliaid (26 Ebrill 2018) i'w cynnwys yn y gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac roeddent yn cynnwys ffocws penodol ar faterion a nodwyd gyda goblygiadau o ran defnydd tir i'r adolygiad. Cyflwynwyd Materion Drafft yn y seminarau a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol, mewn grwpiau ymneilltuo, i wneud y canlynol

i) Rhoi sylwadau ar y materion drafft (a oes rai ar goll? ac ati)
ii) Nodi 3 mater allweddol
iii) Rhoi unrhyw adborth pellach, gan gynnwys p'un a restrir yr eitemau o dan y penawdau cywir, ac a yw'r penawdau (o'r blaenoriaethau Llesiant) yn briodol.

Cofnodwyd y sylwadau ar siartiau troi a'u bwydo'n ôl i'r ystafell, gan roi cyfle i ddiwygio neu ychwanegu at y sylwadau. Cofnodir y sylwadau fel y'u nodwyd yn llawn (gweler Atodiad 1) ynghyd â sylwadau ychwanegol a gafwyd drwy e-bost.

## Sylwadau a Gafwyd

Mae'r sylwadau wedi'u nodi o dan y penawdau a drafodir o fewn y seminar. Dilynir y rhain gan argymhellion a awgrymir a newidiadau wedi'u tracio i ddogfen **'Adolygiad Drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2: 2017 – 2033) Materion a Phrif Faterion'** sy'n ymddangos yn Atodiad 2.

Mewn rhai achosion mae'r materion a godir yn ganolog i'r ffordd yr ymdrinnir â datblygiadau tai mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gynnwys sut rydym yn ymdrin â'r hierarchaeth aneddiadau, ffiniau aneddiadau, mewnlenwi a llyfnhau. Bydd y materion hyn yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar Opsiynau Strategol ar gyfer Tai a fydd yn nodi opsiynau ar gyfer faint o ddatblygiadau tai sydd ei hangen a ble y dylid eu lleoli.

## Materion Allweddol

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi, o fewn y grwpiau ymneilltuo, eu 3 mater allweddol. Nodir y rhain isod, a chânt eu hamlygu o fewn y ddogfen materion ddiwygiedig.

- Mynediad cynaliadwy, darpariaeth o ran seilwaith
- Tai - y tai cywir[1] yn y lle cywir; yr angen i bobl allu byw o fewn eu cymuned a'u hardal deuluol; Cartrefi i bawb
- Yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd,

[1] Yn gysylltiedig iawn â'r agenda iechyd a'r boblogaeth sy'n heneiddio

- Diogelu bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau
- Twristiaeth – newid y ddarpariaeth o ran llety
- Cyflogaeth - faint, pa fath, arallgyfeirio a gweithio ystwyth;
- Graddfa fach /leol ar gyfer tai a chyflogaeth i greu cymunedau cryf
- Ynni cynaliadwy a mynediad i'r grid
- Cydnabod gwerth treftadaeth, iaith a diwylliant wrth greu lle
- Trafnidiaeth, gwella gwasanaethau bws mewn ardaloedd gwledig
- Cysylltu datblygiad newydd â phrosiectau adfywio
- Cadw mannau gwyrdd er budd y gymuned
- Mudo a cholli pobl iau - swyddi o ansawdd da, â chyflogau da, addysg bellach a llefydd bywiog
- Canol trefi - lleihau nifer y swyddi gwag a chefnogaeth i fusnesau lleol, byw mewn canol trefi a chyfraddau busnes; adfywio canol tref
- Angen dull synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau aneddiadau
- Cynllun ar gyfer poblogaethau hŷn a newidiadau i'r GIG

## Y camau nesaf

Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar y Materion y dylai CDLl fynd i'r afael â nhw, y Weledigaeth ddrafft a'r Amcanion drafft ochr yn ochr ag opsiynau Twf ar gyfer y Strategaeth CDLl yn cael eu cynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai penodol gydag Aelodau, Rhanddeiliaid a Chynghorau Cymuned, ond bydd pob papur hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan gyda chyfle i aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau. Yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol hwn, caiff y Strategaeth a Ffefrir ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

| ATODIAD 1 | | |
|---|---|---|
| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| BYW A GWEITHIO | | |
| ***Iechyd a Gwasanaethau Iechyd***<br>Mae angen i agendâu iechyd a chynllunio fod yn gyson â'i gilydd, angen ailstrwythuro gwasanaethau iechyd ac angen edrych am safle ysbyty newydd | Cynhelir ymgynghoriad ar hyn o bryd ar newidiadau i'r gwasanaeth iechyd a darparu gwasanaethau ysbyty lleol yn Ardal Bwrdd Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda. Er ei fod yn rhy fuan i werthfawrogi'n llawn y goblygiadau o ran defnydd tir ar gyfer hyn, mae'n amlwg bod cydberthynas gref rhwng poblogaeth Sir Benfro sy'n heneiddio a gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau llesiant poblogaethau | Diwygio i gyfeirio at yr angen am ofal iechyd priodol |
| ***Tai***<br>Cynllun ar gyfer tai i bobl hŷn, sy'n rhan o'r gymuned, a chymysgedd o dai i ddiwallu anghenion a dymuniadau (gan gynnwys anheddau llai y mae pobl am fyw ynddynt)<br>Tai gwag<br><br>Safleoedd strategol - opsiwn hyfyw? Ddim yn dod ar gael<br>Angen hyblygrwydd ar gyfer safleoedd nad ydynt yn uniongyrchol gyferbyn â ffin anheddiad ond yn dderbyniol fel arall, a dull synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau<br>Nid yw safleoedd yn dod ar gael oherwydd materion hyfywedd | Roedd ystod o faterion yn ymwneud â thai ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Gellir dylanwadu ar y mwyafrif o faterion a godwyd drwy bolisi defnydd tir a<br>- Cymorth ar gyfer tai mewn cymunedau i ddiwallu anghenion pobl, gan gynnwys mewnlenwi a llyfnhau;<br>- Dull o ymdrin â ffiniau aneddiadau<br>- Safleoedd y gellir eu datblygu - maint a hyfywedd | Cynnwys /diwygio materion i gyfeirio at gartrefi i bawb, maint safle a datblygiad o fewn cymunedau. |
| ***Tai Fforddiadwy***<br>Os nad oes angen am dai fforddiadwy mewn aneddiadau bach, ceisio a106 o unrhyw dai marchnad | Dylid ystyried y cyfraniad y gall safleoedd bach ei wneud tuag at ddatblygu tai fforddiadwy rywle arall er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddarparu tai fforddiadwy er mwyn diwallu'r angen | Diwygio i gyfeirio at y potensial i gyflawni cyfraniadau tai fforddiadwy drwy safleoedd tai'r farchnad bach Bydd y papur Opsiynau Strategol sydd ar ddod yn ystyried hyn ymhellach. |

| ATODIAD 1 | | |
|---|---|---|
| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| ***Cyflogaeth***<br>Angen safleoedd cyflogaeth lleol bach i gefnogi ffordd o fyw a lle, annog unedau byw-gweithio. Does dim safleoedd strategol yn dod ar gael<br>Angen arallgyfeirio cyflogaeth er mwyn paratoi ar gyfer diwedd cyfnod tanwydd ffosil<br>Busnesau gwag<br>Strategaeth i gyflwyno safleoedd cyflogaeth yn gynt a'u darparu<br>Llety i'r rhai sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig | Y materion y tynnwyd sylw atynt yn dilyn adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl, nodi'r prinder safleoedd cyflogaeth strategol sy'n dod ar gael. Tynnodd y seminarau sylw at yr angen i ystyried dewisiadau amgen ac ystyried dull o ymdrin â safleoedd cyflogaeth sy'n galluogi safleoedd o fewn cymunedau ac o fewn ardaloedd gwledig i ddod ar gael. | Diwygio materion cyflogaeth i gynnwys<br>'Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn dod ar gael i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau ac i gynllunio ar gyfer lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil'. |
| ***Adeiladwyr Lleol***<br>Mae adeiladwyr lleol yn gallu cynnig safleoedd bach / canolig | Mae'r materion yn cydnabod nad yw safleoedd tai mawr wedi cael eu cynnig fel y rhagwelwyd yn y CDLl. Fodd bynnag, gellid darparu mwy o eglurder i gyfeirio at safleoedd bach a chanolig a'r potensial i'r farchnad leol gyflwyno'r safleoedd hyn. | Diwygio i ychwanegu 'ac mae safleoedd bach a chanolig eu maint yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y farchnad dai leol'. |
| ***Cynaliadwyedd***<br>Gofalu am lesiant cenedlaethau'r dyfodol | Cytuno. Cyfeirio at genedlaethau'r dyfodol wrth drafod cymunedau cryf a dyfeisgar. | Diwygio i gyfeirio at genedlaethau'r dyfodol. |
| ***Canol Trefi***<br>Mae angen cydnabod newidiadau i ganol trefi ac mae canol trefi yn esblygu (e.e. gweithio gartref). Bod yn fwy hyblyg i newid y defnydd o ganol trefi ar gyfer economi'r dydd ac economi'r nos<br>Tai o ansawdd gwell mewn canol trefi (nid Tai Amlfeddiannaeth) | Cytunir bod angen dull diwygiedig o ymdrin â'n canol trefi er mwyn eu helpu i fod yn lleoedd llewyrchus a llawn addewid ar gyfer y dyfodol. | Mae angen diwygio'r mater ynghylch canol trefi er mwyn cydnabod bod angen dull gweithredu newydd sy'n cydnabod bod rôl canol trefi yn newid. |
| ***Twristiaeth***<br>Carafannau - angen dull gweithredu newydd ar gyfer SE a safleoedd yn ôl eu teilyngdod | Mae effaith llety i dwristiaid ar y dirwedd wedi newid ynghyd â'r mathau o lety y mae pobl am ei gael bellach - mae angen ailystyried y dull polisi o ran pebyll crwyn (yurts), glampio ac ati, ac er y | Diwygio i gynnwys cyfeiriad at ble y gellir lleoli safleoedd |

ATODIAD 1

| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
|---|---|---|
| | cydnabyddir hyn yn rhannol o fewn y materion a nodwyd, dylai lleoliad hefyd gael ei bwysleisio fel mater o bwys | newydd neu ymestyn safleoedd. |
| CYMUNEDAU DYFEISGAR | | |
| ***Integreiddio yn y gymuned*** Cysylltu datblygiadau newydd ag ardaloedd adfywio mewn trefi sydd eisoes yn bodoli er mwyn eu galluogi i ffynnu | Bydd y CDLl yn annog ac yn neilltuo datblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac a leolir yn gynaliadwy. Bydd y dull gweithredu hwn yn cefnogi'r broses o adfywio (canol) trefi pan fydd safleoedd ar gael i'w datblygu. | Ni chynigir unrhyw newid er mwyn cynnwys y sylw hwn, fodd bynnag, nodir y pwynt. |
| ***Yr Iaith Gymraeg*** CDLl 2 i fynd i'r afael â materion ynghylch yr iaith Gymraeg | Er bod dylanwadau ar yr iaith Gymraeg yn mynd y tu hwnt i gynllunio defnydd tir, mae rôl i'r CDLl drwy sefydlu'r amodau ar gyfer caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. | Diwygio'r rhestr o faterion i gynnwys cyfeiriad o fewn yr iaith Gymraeg i gynnwys 'yr angen i gynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy raddfa a lleoliad datblygiad tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol' |
| ***Storio gwastraff*** Casglu a storio gwastraff a chynllunio ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu | Mae'r gefnogaeth i ailgylchu yn golygu bod angen mwy o le yn gyffredinol mewn eiddo unigol ac eiddo cymunol i storio deunyddiau y gellir eu hailgylchu i'w casglu. | Cynhwysir troedyn i gyfeirio at gartrefi i ddiwallu anghenion pobl, i nodi 'cynnwys storio gwastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu' |
| ***Creu lle*** Cymunedau cryf / Cydlyniant Cymunedol Angen arweinyddiaeth gref mewn cymunedau Effaith ail gartrefi ar gymunedau | Gall creu lle helpu i wneud cymunedau'n gryfach a dylid ei godi fel mater ar gyfer yr adolygiad o'r CDLl. | Diwygio o dan y pennawd cymunedau dyfeisgar i nodi 'gellir galluogi cymunedau cryf a dyfeisgar drwy greu lle' |
| MYND I'R AFAEL Â GWLEDIGRWYDD | | |
| ***Maint a Lleoliad Tai*** Mae angen i faint safleoedd adlewyrchu marchnad Sir Benfro a chaniatáu ar gyfer safleoedd ar hap a'r % a gaiff ganiatâd ond na chânt eu hadeiladu. | Mae Adroddiad yr Adolygiad wedi nodi nad yw safleoedd tai strategol yn dod ar gael, a bydd angen dull gweithredu diwygiedig i adlewyrchu marchnad Sir Benfro, gan gynnwys tai hunanadeiladu. Gweler y newid a argymhellir i'r sylw ynghylch 'adeiladwyr lleol'. [sy'n cynnig newid i faterion tai strategol 'Diwygio i ychwanegu 'ac mae safleoedd bach a | Gweler y newid a argymhellir i'r sylw ynghylch 'adeiladwyr lleol'. [sy'n cynnig newid i fater tai strategol fel a ganlyn 'Diwygio i ychwanegu 'ac mae |

| ATODIAD 1 | | |
| --- | --- | --- |
| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| Mae'r gwaith mewnlenwi a llyfnhau sy'n ofynnol mewn pentrefannau a phentrefi bach i fynd i'r afael â gwledigrwydd a darparu datblygiad sydd ei angen yn fawr mewn cymunedau lleol, ac ystyried ymestyn ffiniau pentrefi 'glas' i wneud iawn am y datblygiad araf mewn rhai coch<br>CDLl2 i fynd i'r afael â materion gwledigrwydd | chanolig eu maint yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y farchnad dai leol'. | safleoedd bach a chanolig eu maint yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y farchnad dai leol'.] |
| ***Mudo***<br>Mynd i'r afael ag achosion pobl ifanc yn allfudo - tai hunanadeiladu, tai fforddiadwy, cyfleoedd am swyddi, lleoedd bywiog | Cytuno. Cynhwysir hyn fel mater ar gyfer yr Adolygiad o CDLl2. | Diwygio i gynnwys 'Mae angen mynd i'r afael â phobl ifanc yn allfudo drwy dai, cyflogaeth a chanol trefi bywiog' |
| ***Diwylliant***<br>Angen proffil uwch | Cytuno. | Mae angen cydnabod gwerth iaith, treftadaeth a diwylliant wrth greu lle fel mater. |
| ***Trafnidiaeth***<br>Diddymu taliadau Pont Cleddau a'r effaith ar y modd y mae'r sir yn gweithredu /ble mae pobl yn byw<br>Ymgorffori cynllun trafnidiaeth | Er y gall diddymu taliadau'r bont gael effaith ar benderfyniadau pobl o ran ble i fyw, dylai datblygiad tai newydd helpu i gynnal cymunedau cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio.<br>Nodir y gefnogaeth i gynnwys y cynllun trafnidiaeth. | Mae'r materion a nodwyd yn cynnwys yr angen i gefnogi cartrefi a chyflogaeth o fewn cymunedau ac nid oes angen i'r mater hwn, er ei fod yn ddilys, gael ei nodi ar wahân.<br>Dim angen newid mewn perthynas â'r cynllun trafnidiaeth. |
| DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD | | |
| ***Erydu Arfordirol***<br>Dull PCNPA o ymdrin â newid yn yr hinsawdd yn cael ei gefnogi | Mae cryn sylw wedi ei roi i newid yn yr hinsawdd a'r effaith bosibl ar erydu arfordirol. | Ni wneir unrhyw newid i'r materion. |

| ATODIAD 1 | | |
|---|---|---|
| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| Efallai bod y sefyllfa o ran erydu arfordirol wedi ei gorbwysleisio | | |
| ***Mannau Agored***<br>Diogelu mannau agored a seilwaith gwyrdd yn bwysig er mwyn sicrhau bod mannau ar gael i gymunedau | Cytunir y gall mynediad i fannau agored a seilwaith gwyrdd fod yn llesol iawn a nodir hyn yn y ddogfen materion | Diwygio'r mater ynghylch mannau agored a seilwaith gwyrdd i ehangu ar y budd i gymunedau. |
| ***Yr Amgylchedd Hanesyddol / treftadaeth***<br>Ychwanegu eitem ar yr amgylchedd hanesyddol<br>Angen ymdrin â hyn yn CDLl2 | Cytuno. | Ychwanegu 'sicrhau y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei gydnabod a'i ddiogelu, ei warchod a'i wella'. |
| ***Yr Amgylchedd***<br>Cysylltiadau â datblygiad cywir yn y lle cywir a natur unigryw leol. Gall dwysedd datblygu is fod yn gyfle i wella'r seilwaith gwyrdd a 'rhwydweithiau ecolegol gwydn' | Nid yw datblygiad preswyl dwysedd uchel o reidrwydd yn cyd-fynd â'r ymdeimlad o le nac yn cyfrannu at wella ecosystemau. Mae'r potensial hefyd i erddi gyfrannu at lesiant preswylwyr. | Diwygio i nodi 'Parchu manteision gerddi a'u cyfraniad at fywyd gwyllt, cynefinoedd, bioamrywiaeth a'r ymdeimlad o le a, lle bo'n bosibl, sicrhau yr adlewyrchir hyn yn nwysedd datblygiadau tai newydd'. |
| ***Newid yn yr Hinsawdd***<br>Llifogydd - a yw hwn yn fater allweddol? | Mae'r potensial i newid yn yr hinsawdd arwain at dywydd eithafol yn cynnwys llifogydd a chydnabyddir na chafodd hyn ei godi fel mater allweddol yn y seminarau | Ni chynigir unrhyw newid i'r materion allweddol. Fodd bynnag, codir mater llifogydd fel mater yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd. |
| ***Ynni Adnewyddadwy***<br>Eiddo ynni isel a phrosiectau gwres a phŵer cyfun<br>Ynni isel priodol yn ofynnol fel rhan o gynlluniau tai | Defnyddio dulliau ynni adnewyddadwy ac ynni isel wrth ddatblygu yn rhan o'r dull cyfrifol byd-eang o ddatblygu ynni. | Ychwanegu 'dylid cefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy ac ynni isel mewn datblygiadau tai. |
| ***Amaethyddiaeth***<br>Dwysáu arferion amaethyddol a newidiadau i ddulliau ffermio | Ychwanegu y dylid cydnabod bod dwysáu arferion amaethyddol a'r effaith bosibl ar barthau perygl nitradau yn Sir Benfro yn broblem. | Ychwanegu 'dwysáu arferion amaethyddol a'r effaith bosibl |

| ATODIAD 1 | | |
|---|---|---|
| Mater - Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| Parthau Perygl Nitradau a'u heffaith ar ffermio | | ar yr amgylchedd gan gynnwys parthau perygl nitradau. |

**Sylwadau Cyffredinol**

| Mater | Ymateb | Atodiad 1 |
|---|---|---|
| Mae'r modd y caiff y materion eu grwpio yn adlewyrchu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fodd bynnag, mae llawer o'r materion yn rhai trawsbynciol ac yn ymwneud â sawl thema wahanol o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Dangosodd llawer o'r sylwadau a gafwyd y gydberthynas a'r synergedd rhwng materion a'r potensial i ddylanwadu ar draws ystod o faterion. Gellir ystyried y gydberthynas rhwng y materion unigol o fewn y weledigaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prif faterion a nodwyd. | Er na chynigir unrhyw newidiadau i'r materion a nodwyd, gellir cynnwys brawddeg i bwysleisio natur drawsbynciol llawer ohonynt. |
| Angen gweithio'n agos gyda BT, Dŵr Cymru ac amwynderau eraill[2]<br>Dylid canolbwyntio ar seilwaith yn CDLl2 | Cytuno. | Ychwanegu mater newydd 'Bydd angen mynd i'r afael â darparu seilwaith priodol i gefnogi cymunedau yn ystod yr adolygiad o'r cynllun.' |
| Gweithio gyda'r Parc Cenedlaethol<br>Angen polisi sy'n gyson â'r Parc Cenedlaethol a dylid cael cynllun ar y cyd | Er ein bod yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i ddangos tystiolaeth o'r Cynlluniau Datblygu Lleol priodol, mae amserlen CDLl y Parc Cenedlaethol ar y blaen i Gyngor Sir Penfro. Fodd bynnag, mae'r potensial i ailystyried cydweithio yn y dyfodol. | Nid oes angen diwygio'r materion, er y manteisir ar unrhyw gyfle i drafod cynlluniau ar y cyd lle y bo'n bosibl. |

**Aildrefnu Materion**

[2] Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod 'amwynderau' yn cyfeirio at ddarparwyr seilwaith.

| Mater - crynodeb o'r sylwadau | Ymateb | Newid a Argymhellir |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael â gwledigrwydd - Dinas Ranbarth Bae Abertawe a Gorsaf Bŵer Doc Penfro, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau - nid yw'r rhain yn wledig | Cytuno y gall y rhain fod yn rhan o'r materion Byw a Gweithio | Symud i 'byw a gweithio' |
| Canol trefi - mynd i'r afael â gwledigrwydd - nid yw'r trefi hyn yn wledig | Er bod pocedi trefol o fewn y Sir, yn gyffredinol mae'n wledig ei natur ac mae gwledigrwydd yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at fynediad at wasanaethau, y natur ymylol gymharol a'r teneurwydd poblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod angen i'r trefi yn y Sir gyflawni rolau a swyddogaethau a fyddai'n gysylltiedig â threfi mwy o lawer fel arfer. (gweler hefyd ddiweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 tudalen 85). | Mae potensial i'r broses o wella'r gwasanaethau a mynediad at ganol trefi fynd i'r afael â gwledigrwydd y sir gyfan. Dim newid. |
| Symud newid yn yr hinsawdd a mannau agored a seilwaith gwyrdd i ddiogelu ein hamgylchedd (o gymunedau dyfeisgar) | Cytuno y gellir symud y rhain | Symud i 'Diogelu ein hamgylchedd' |
| Symud llai o ddatblygu a safleoedd strategol, materion ynghylch Bae Abertawe a materion Parthau Menter o 'Mynd i'r afael â gwledigrwydd' i 'byw a gweithio' | Cytuno | Symud i 'byw a gweithio' |

# Adolygiad Drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol : (CDLl2: 2017 - 2033)

## **Materion Allweddol, Materion a Phrif Faterion*

**Mae llawer o'r materion a nodwyd yn rhai trawsbynciol a byddant yn dylanwadu ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y pynciau a nodwyd.**

**BYW A GWEITHIO**

Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, amcangyfrifir y bydd llai o bobl yn byw yn Sir Benfro nag yn 2014. (Er y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu tan 2029).

Bydd poblogaeth Sir Benfro yn heneiddio gyda mwy o bobl dros 65 oed, a llai o bobl ifanc.

*Bydd angen cynyddol am dai addas ar gyfer pobl hŷn a'r gofal iechyd priodol.

*Mae angen mynd i'r afael â phobl ifanc yn allfudo drwy dai, cyflogaeth, a chanol trefi bywiog a chyswllt â phrosiectau adfywio

Bydd cartrefi yn llai a bydd mwy ohonynt nag sydd ar hyn o bryd.

Bydd angen parhaus am dai fforddiadwy sef 1641 o gartrefi fforddiadwy bob blwyddyn. (Mae gennym restr aros gyffredin o 2179 o bobl sydd ag anghenion tai). Dylid ystyried ffyrdd newydd o ddarparu tai fforddiadwy drwy ddatblygu safleoedd neu drwy gyfraniadau gan ddatblygiadau tai marchnad.

Nid yw rhai Safleoedd Tai Strategol mawr (Slade Lane, Shoals Hook Lane, Maesgwynne) wedi cael eu datblygu ac mae safleoedd bach a chanolig eu maint yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y farchnad dai leol.

Mae llai o dai wedi cael eu hadeiladu na'r hyn a ragwelwyd ers 2013 ac ers 2015 mae llai o dai wedi cael eu hadeiladu mewn ardaloedd trefol na'r hyn a gynlluniwyd, ond mae'r Cynllun yn parhau i gyrraedd lefelau da o dai fforddiadwy.

*Mae angen cartrefi i bawb sy'n galluogi pobl i aros yn eu cymunedau ac sy'n diwallu eu hanghenion[3], mae ail gartrefi a thai fforddiadwy yn ystyriaethau allweddol.

*Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn dod ar gael i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau ac i ystyried y raddfa, arallgyfeirio a gweithio ystwyth ac i gynllunio ar gyfer lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil'.

*Gwelliannau i drafnidiaeth a gwasanaethau bws mewn ardaloedd gwledig

*Ymdrinnir â darparu seilwaith priodol i gefnogi cymunedau a mynediad cynaliadwy yn ystod yr adolygiad o'r cynllun

[3]Yn cynnwys storio gwastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu

Byddwn yn rhan o Ddinas Ranbarth Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Bydd Parth Menter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn parhau i fod yn ardal ddynodedig

*angen dull synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau aneddiadau

**CYMUNEDAU DYFEISGAR**

Rydym wedi nodi'r angen am 32 o leiniau i Sipsiwn-Deithwyr erbyn 2020

Yr angen i gynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy raddfa a lleoliad datblygiad tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Gellir galluogi cymunedau cryf a dyfeisgar drwy greu lle ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

*Mae angen cydnabod gwerth iaith, treftadaeth a diwylliant wrth greu lle.

**MYND I'R AFAEL Â GWLEDIGRWYDD**

Mae'r rhan fwyaf o ganol trefi yn brwydro yn erbyn cyfraddau eiddo gwag uwch na'r cyfartaledd a bydd angen llai o ddyraniadau manwerthu na'r hyn a nodwyd yn y CDLl. Mae angen dull diwygiedig sy'n cydnabod bod canol trefi yn newid ac mae *lleihau nifer yr eiddo gwag, ardrethi busnes ac adfywio canol trefi yn faterion allweddol.

Dull dosrannu newydd o ran tywod a graean ar draws y rhanbarth er mwyn helpu i leihau cynhyrchiant yn y dyfodol yn y Parc Cenedlaethol.

Llai o ddatblygiadau na'r hyn a ragwelwyd ar safleoedd cyflogaeth strategol (Blackbridge, Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro / Parc Busnes Llwynhelyg / Trecŵn).

Mae angen i ni ddiweddaru cynlluniau trafnidiaeth i adlewyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd (2015-2020).

***DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD**

*Mae'r mwyafrif o'n bywyd gwyllt a'n cynefinoedd mewn cyflwr cymedrol neu wael er gwaethaf ymdrechion cadwraeth[4], mae angen diogelu bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

*Mae llety i dwristiaid yn newid ac mae angen i ni ystyried hyn ac ystyried ble y gellir lleoli safleoedd newydd neu ymestyn safleoedd.

*Bydd Newid yn yr Hinsawdd yn effeithio ar gymunedau (yn enwedig rhai arfordirol neu rai sy'n wynebu risg o lifogydd) a'r amgylchedd.

*****Bydd angen diogelu mannau agored a seilwaith gwyrdd i gefnogi llesiant cymunedau.

Parchu manteision gerddi a'u cyfraniad at fywyd gwyllt, cynefinoedd, bioamrywiaeth a'r ymdeimlad o le a, lle bo'n bosibl, sicrhau yr adlewyrchir hyn yn nwysedd datblygiadau tai newydd.

Sicrhau y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei gydnabod a'i ddiogelu, ei warchod a'i wella.

Ynni adnewyddadwy ac ynni isel *dylid cefnogi'r defnydd o ynni cynaliadwy a mynediad i'r grid mewn datblygiadau tai.

Dwysáu arferion amaethyddol a'r effaith bosibl ar yr amgylchedd gan gynnwys parthau perygl nitradau

[4] Mae diweddariad 2016 'Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro' yn nodi mai dim ond 3 chynefin neu fywyd gwyllt sydd mewn cyflwr da (o 23)

Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan

## Mae'r fframwaith rydym yn gweithio ynddo yn newid drwy'r amser -

**DEDDFWRIAETH NEWYDD**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Deddf Tai (Cymru) 2014

**CANLLAWIAU POLISI CENEDLAETHOL NEWYDD neu WEDI'U DIWEDDARU**

TAN20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)

TAN1 Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015)

TAN4 Manwerthu a Chanolfannau Masnachol (2016)

TAN12 Dylunio (2016)

TAN21 Gwastraff (2014)

TAN23 Datblygu Economaidd (2014)

TAN24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)

**CANLLAWIAU POLISI A GYHOEDDWYD AR GYFER YMGYNGHORIAD**

Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer ymgynghoriad

Cynllun Morol Cymru wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad

**A'R HYN NAD YDYM YN EI WYBOD ETO ..**

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cynlluniau Datblygu Strategol